



Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

Trysorydd:

Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

Trefnydd Hysbysebion:

Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

Golygydd:

Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastle@yahoo.com
(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion
Dr Brynley Roberts
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes M.A.
Rheinalt Llwyd
Huw Ceiriog Jones
Mrs Mair Edwards
Dr Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD ERBYN MAI 31**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION ERBYN MAI 24**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD ERBYN MAI 31**



Gwasg Gwynedd

Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Ffôn: (01286) 674486

Gwasanaeth y Deillion

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Miss Anne K. Till, 01970 820235.**

Bargeinion

The Secret Vale of Glamorgan £7.99
(yn lle £13.99)
The Dragon Entertains £8.99
(yn lle £12.99)
The Book of Welsh Saints £17.99
(yn lle £24.99)
100 Great Welshmen £13.99
(yn lle £18.99)
An A-Z of Wales and the Welsh £11.99
(yn lle £14.99)
Cludiant yn ychwanegol. Cysylltwch â'r golygydd.

Golygyddol

O'r diwedd, rydyn ni fel Cymdeithas wedi cyrraedd ein chwarter canrif. Mae'r dyfodol, ar hyn o bryd, yn argeili'n dda. Dyna pam y penderfynodd y pwyllgor ddathlu'r achlysur mewn modd a fyddai'n deilwng o'r aelodau, gyda Diwrnod Dathlu Chwarter Canrif Y Casglwr ym Mhorthmeirion ar 25 Mai 2002. Bydd mynediad i'r pentref yn rhad ac am ddim i'r aelodau.

Rydyn yn ffodus iawn i gael yr Athro Hywel Teifi Edwards a'r Bonwr Dyfed Evans i'n hannerch. Gobeithio y gwnewch ymateb yn brydlon gan na fydd hi'n bosibl cadw lle

os nad yw'r blaendal a'r archeb yn cyrraedd erbyn 10 Mai.

Mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt hefyd ar gyfer y Ffair Lyfrau y bwriedir ei chynnal ar 27 Ebrill yn Ysgol Penweddig. Gobeithio y gwnewch ymdrech lew i'w mynychu fel y gwnaethoch yn y gorffennol. Bydd Ffair Lyfrau Y Bala yn cael ei chynnal hefyd ar Sadwrn 28 Medi 2002. Gobeithir ehangu'r achlysur eleni. Cewch fwy o wybodaeth yn rhifyn yr Haf.

Gan fod y rhifyn hwn yn rhifyn y dathlu ceir pedair tudalen liw ynddo. Mi fyddwn yn hoffi cael eich sylwadau

ynghlyn â'r datblygiadau hyn er mwyn i ni gael gwella y ddarpariaeth ar eich cyfer.

Oherwydd fod nifer o aelodau heb godi eu tâl aelodaeth i'r £7.50 presennol, mae cynllun ar y gweill i gysylltu â phawb i'w hannog i dynnu dehid uniongyrchol yn hytrach na thalu sic neu archeb Banc. Mae llwyddiant hyn yn ddiabynnol arnoch chi'n llwyr wrth gwrs, ac mi fydd yn fodd i ni wybod yn union faint o gyllid fydd yn cyrraedd fel y gallwn gynllunio o flaen llaw.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r cynifer ohonoch sydd wedi anfon rhoddion ariannol ar gyfer gweithgarwch y Gymdeithas. Mae'r swyddogion yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

I Drwsio'r Hen Drysorau gan Bruce Griffiths

Pa beth wnewch chi â llyfr gwael ei gyflwr? Mi fentraf fod llawer ohonoch, fel minnau, wedi gorfod bodloni ar daro pwt o selotêp neu lyfiad o bast arno yn niffy dim gwel. Bu adeg pan allwn fynd â llyfr drylliog i'w drin gan rwywyr Coleg y Gogledd a chael gwaith campus am bris rhesymol iawn. Eithr bellach, dan bwysau gwaith a diffyg staff, nid oes modd ysywaeth iddynt ymgymryd â gwaith o'r tu allan.

Euthum i deimlo fwyfwy angen dysgu sut i drin llyfrau fy hun. Gynt yr unig fodd o wneud hynny fyddai mynd yn brenit i feistr-rwymwr am flynyddoedd, ond go brin y ceir prentisiaeth mwyach. Bûm yn chwilio am gwrs a fyddai o leiaf yn fy rhoi ar ben y ffordd, a'r llynedd bûm yn dilyn cwrs tridiau yn Burton Manor College, ger Caer. Lle tebyg i Goleg Harlech, ac yn fangre ddymunol iawn: hen blasty hardd yn ei erddi ei hun gyda lloffydd digon cysurus a phrydau bwyd blasus; a chan y cynhelid nifer o gyrsiau eraill ar y pryd, yr oedd digon o gwmnïaeth. Parhaodd y cwrs o'r nos Wener yn syth ar ôl swper hyd y prynhawn Sul. Cwta hanner dwsin oedd ym yn y dosbarth, yn eistedd o gwmpas bwrdd mawr mewn lolfâ. Y tiwtor oedd Paul Delrue o'r Terfyn (Tarvin), meistr ar rwywmo lledr yn gain a rhwymwr o fri rhyngwladol. Yn amyneddgar a diffwdan, dysgodd inni sut i greu llyfr nodiadau cain gan gychwyn o'r cychwyn - plygu dalennau a'u gwneio, torri cloriau a meingefn, dewis papur cain ar gyfer y clawr, torri cas papur a chorneli a gludio'r cyfan yn ofalus at ei gilydd. Gwaith manwl-drafferthus braidd yw'r gwneio, a hawdd gweld paham yr ymddiriedir y gwaith i ferched yn aml, gyda'u bysedd meinach

a mwy deheuig. Gwnaethom bopeth ond y llythrennu ag aur a wnaed gan y tiwtor ei hun - mae angen cryn ymarfer i feistrol'r grefft honno. Yr hyn a synnodd nifer ohonom oedd yr hyn y gellir ei wneud heb offer costus. Ni ddefnyddid hyd yn oed ffrâm wnïo, a defnyddid llyfrau trymion yn lle gweisg. Ar ddiwedd y cwrs teimlai pob un ohonom falchder o'i gamp, mi gredaf.

Ar gwrs o'r fath, ni ellid dysgu crefftau mwy dyrys megis rhwymmo lledr, euro ymylon, neu lythrennu ag aur; prin iawn yw cyrsiau o'r fath, a drud fel pupur. Eithr o leiaf, o weld sut y creir llyfr, caiff dyn hyder i ddatgymalu llyfr bregus a'i ailgasio: gellir ymarfer ar hen lyfrau a gewch mewn unrhyw siop elusen, gan ddysgu o'ch camgymeriadau.

Bydd Paul Delrue yn cynnal cwrs tebyg eto yn yr un fan, yn ystod 15-17 Mawrth 2002. Y gost fydd £118 (£128 en suite) yn cynnwys bwyd a llety a £93 heb fwyd a llety.

Rhif y cwrs yw CS 02 04. Ymholer â Burton Manor College, Neston, Cheshire CH64 5SJ. Ffôn: 0151 336 5172; Ffacs: 0151 336 6586; e-bost: enquiry@burtonmanor.com.

Ceir cyrsiau eraill ledled Lloegr, e.e. bydd Gwyl Gelfyddyd Cheltenham yn arfer cynnal cwrs byr iawn fel rhan o'i gweithgareddau. Ymholer ar y ffôn: 01242 227 979, neu edrychwch ar ei gwefan: www.cheltenhamfestivals.co.uk. Rhestrir cyrsiau eraill ar wefanau megis www.hewit.com.

Gellir cael grant o hyd at £100 gan y llywodraeth tuag at gost cyrsiau crefft dan gynllun Cyfrif Dysgu Unigol Cymru (ELWA).

'O.N. Ar hyn o bryd (Ionawr

2002) ataliwyd y cynllun uchod dros dro, ond dichon ei ail-gychwyn efallai ym mis Ebrill eleni.'

Dyma'r cyfeiriadau:

Ar gyfer y Gogledd: Tim CDU ELWA Gogledd Cymru, Uned 6, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0LJ. Ffôn: 08456 088 066 neu 01745 538 501; e-bost: ilanw@elwa.org.uk.

Ar gyfer y Canolbarth: Tim CDU ELWA Canolbarth Cymru, Tŷ Dewi Sant, Y Drenewydd, Powys SY16 1RB. Ffôn: 08456 088 066 neu 01686 622 716; e-bost: ilamw@elwa.org.uk.

Ar gyfer y De-ddwyrain: Tim CDU ELWA De-ddwyrain Cymru, Tŷ'r Afon, Heol Bedwas, Bedwas, Caerffili CF83 8WT. Ffôn: 08456 088 066 neu 01443 663 653; e-bost: ilase@elwa.org.uk.

Ar gyfer y De-orllewin: Tim CDU ELWA De-orllewin Cymru, Tŷ'r Berllan, Stryd y Berllan, Abertawe SA1 5DJ. Ffôn: 08456 088 066 neu 01792 354 001; e-bost: ilasw@elwa.org.uk.

Gallai fod o fudd ichwi ymuno â'r Society of Bookbinders. Ceir cangen yn y Gogledd; cynhelir cyfarfod addysgol a chymdeithasol ger Caer bob mis; cyhoeddir cylchlythyr chwarterol a thrwy'r Gymdeithas gellir cael defnyddiau ar ddisgownt. Ymholer â Mrs S.L. Bath, 8 Bryn Coetmor, Bangor, Gwynedd LL57 3NL. Ffôn: (01248) 602591. Y tu allan i'r Gogledd ymholer â Dermott Creece, Ferncliffe, 9 Oldbury Wells, Bridgnorth, Shropshire W16 5JE. E-bost: membership@societyofbookbinders.com.

Gallaf gymeradwyo llyfrau megis *Bookbinding for Beginners*, John Corderoy; *Bookbinding*, Edward Kitson; *Introduction to Bookbinding*, L.S. Darley. Ceir catalogau o lyfrau ail-law sy'n ymwneud â phob agwedd ar

(Parhad ar dudalen 5)